



Disclosure & Barring Service

Staff canolfannau hamdden – gweithio gyda phlant

Awdurdodaeth: Cymru a Lloegr

Cefndir

Y mae'n gamsyniad cyffredin dylid gofyn i bob aelod o staff sy'n gweithio mewn canolfan hamdden i geisio am dystysgrifau'r DBS. Mae hyn wedi deillio o bryderon ynglŷn â mynediad at ystafelloedd newid lle gall plant fod heb ddillad amdanynt, y posibilrwydd o gyffyrddiad corfforol â phlant mewn sefyllfaoedd o argyfwng ac oherwydd bod plant yn mynychu'r adnoddau hyn heb eu rhieni neu warcheidwaid.

Cymhwysedd ar gyfer staff canolfannau hamdden

Ni enwir staff canolfannau hamdden yn benodol fel rôl neu alwedigaeth yn y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 Gorchymyn (Eithriadau) 1975 a chan hynny nid oes cymhwysedd awtomatig i geisio am dystysgrif safonol y DBS.

Nid yw canolfan hamdden yn sefydliad penodedig a restrir yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (SVGA 2006), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (PoFA 2012), ac felly nid oes cymhwysedd awtomatig i geisio am dystysgrif fanwl y DBS gyda gwriad o restr wahardd plant y DBS ar gyfer ei staff.

Os oes gan aelod o'r staff gysylltiad â phlant dim ond oherwydd ei fod yn gweithio mewn man lle gall plant fod ac nid yw'n cyflawni unrhyw o'r gweithgareddau a osodir allan yn neddfwriaeth 'gweithio gyda phlant', yna nid oes cymhwysedd ar gyfer tystysgrif safonol neu fanwl y DBS, e.e. gweinyddiaeth, staff y bar, glanhawr neu ofalwr.

Fodd bynnag, gall bod achlysuron lle mae rolau canolfan hamdden yn cynnwys rhai dyletswyddau a gweithgareddau a fyddai'n galluogi tystysgrif fanwl y DBS gyda gwiriad o restr wahardd plant y DBS gael ei chynnal o dan Atodlen 4 SVGA 2006. Byddai hyn yn golygu byddai deilydd y swydd mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant. Yn ei dro, byddai hyn yn gwneud y cyflogwr yn ddarparwr gweithgaredd a reoleiddir (RAP) sy'n esgor ar rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

Er enghraifft, byddai unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant (lle nad yw hyn yn gysylltiedig â pherfformio'r un tasgau ag oedolion) a lle mae hyn yn digwydd teirgwaith neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod, yn dod o dan y diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gyda phlant. Byddai gan y rolau hyn yr hawl i dystysgrif fanwl y DBS gyda gwiriad o restr wahardd plant y DBS, e.e. achubwr bywydau neu hyfforddwr nofio i blant.

Ymhle cynhelir y gweithgareddau hyn yn anaml (ond o hyd mwy nag unwaith), mae cymhwysedd yn bodoli ar gyfer tystysgrif fanwl y DBS, ond **heb** wiriad o restr wahardd plant y DBS.

Mae amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau eraill a all ddigwydd mewn canolfan hamdden wedi eu hanelu at blant. Lle mae hyn yn wir, nid yw'n briodol i wirio holl aelodau eraill o staff y ganolfan hamdden oni bai eu bod yn cwrdd â'r meini prawf a nodir uchod.

Cyfleusterau meithrinfa

Yng Nghymru, mae nifer fawr o ganolfannau hamdden yn cynnig cyfleusterau meithrinfa i fabanod hyd at blant deuddeng mlwydd oed. Mae'r cyfleusterau hyn yn syrthio o dan gyloch gwaith statudol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac felly maent yn ddarostyngedig i'w threfn cofrestru orfodol. Yn Lloegr, mae cyfleusterau i blant hyd at 8 mlwydd oed yn ddarostyngedig i drefn cofrestru orfodol Ofsted. Gall darparwyr yn Lloegr sydd ond yn cynnig gwasanaethau gofal plant i'r rheiny sy'n 8 mlwydd oed a throsodd gofrestru ag Ofsted yn wirfoddol.

Bydd staff sy'n **gweithio mewn meithrinfa** a leolir oddi mewn i ganolfan hamdden yn gymwys i'w gofyn i geisio am dystysgrif fanwl y DBS gyda gwiriad o restr wahardd plant y DBS yn yr un ffordd a fyddai staff sy'n gweithio mewn unrhyw feithrinfa arall. **Nid** yw hyn yn golygu bod yr holl ganolfan hamdden yn sefydliad penodedig. Nid yw'n briodol i wirio holl aelodau eraill o staff y ganolfan hamdden oherwydd y cyfleuster meithrinfa.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gywir adeg argraffu. Os ydych angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid y DBS neu ceisiwch gyngor cyfreithiol.